Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Clocaenog
# Neuadd yr Eglwys
# Clocaenog
# Sir Ddinbych
# LL15 2AT

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Clocaenog yn gylch cyfrwng Cymraeg.  Mae'n cyfarfod yn Neuadd Eglwys Clocaenog, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych.  Mae'r lleoliad ar agor am bum pnawn yr wythnos.  Mae wedi'i gofrestru ers Hydref 2013 i dderbyn hyd at 22 o blant fesul sesiwn.  Mae 14 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o ddwy a hanner i bedair mlwydd oed.  Ar hyn o bryd, mae dau o blant yn cael eu hariannu o gyllid y blynyddoedd cynnar.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf.  Adeg yr arolygiad, nid oedd gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae yna ddau aelod o staff, yn cynnwys arweinydd y lleoliad ac un ymarferwr.  Mae pob aelod o staff yn meddu ar gymwysterau addas. Maent i gyd yn brofiadol ac yn meddu cymwysterau addas yn y maes addysg a gofal plant bach. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd ers Medi 2015.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ebrill 2015.  Nid yw lleoliad wedi cael ei arolygu gan Estyn o'r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn ymroddgar i ddatblygiad y plant a'r lleoliad
- maent yn creu ethos cynhwysol ac awyrgylch gynnes a chynhaliol i'r plant
- maent yn ennyn hyder a hunan ddelwedd bositif yn y plant sy'n eu hannog i fwynhau dod i'r lleoliad ac i ymddwyn yn dda
- mae'r lleoliad yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu gan gynnwys ymweliadau diddorol gan aelodau'r gymuned leol
- mae ymarferwyr yn fodelau da iawn o iaith loyw a graenus
- mae trefniadau effeithiol iawn ar waith i annog plant i gadw'n iach
- mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r ystafell sydd ar gael iddynt

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u cryfderau i ddyrannu cyfrifoldebau
- maent yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a gloywi'r Gymraeg
- mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella
- mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant
- mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol iawn gydag asiantaethau eraill, gan groesawu cyngor a chymorth
- mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol a chynhaliaeth y person cyfrifol yn gryfder
- mae'r pwyllgor rheoli yn weithredol a chefnogol
- maent yn defnyddio cyllid yn effeithiol i gefnogi dysgu plant

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod cyflwyniadau i waith grŵp ffocws yn gynnil a bod plant yn cyfrannu i benderfyniadau am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu eu sgiliau meddwl a'u sgiliau datrys problemau

A2. Gwneud defnydd o'r ardal tu allan yn rheolaidd gydol y flwyddyn

A3. Datblygu cyfleoedd i'r ymarferwyr ddysgu oddi wrth leoliadau eraill a rhannu arfer dda

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg na lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ystod o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad. Maent yn bodloni anghenion plant ar wahanol gamau datblygu yn briodol.

Maent yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy ddilyn themâu priodol, fel hydref a rhew ac eira. Maent yn trefnu ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol fel i 'Symud a Dawnsio' gyda chymeriadau allan o lyfrau Cymraeg ac i'r ysgol leol i ymuno mewn dathliadau. Maent hefyd yn croesawu aelodau'r gymuned i'r lleoliad i ddarllen stori sydd yn gysylltiedig â themâu. Fe wnaeth ymweliad gan y postmon lleol, er enghraifft, gyffroi diddordeb y plant mewn ysgrifennu a phostio cardiau. Mae ymarferwyr yn helpu plant i ddeall y dylent drin pethau byw gyda gofal, er enghraifft, wrth ddewis bwyd amrywiol i'r adar yn y gaeaf ac i archwilio'r bwydydd mwyaf addas iddynt. Fodd bynnag, mae plant yn cael llai o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau meddwl a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd plant. Maent yn fodelau da iawn o iaith loyw a graenus sydd yn cyfoethogi iaith y plant yn ddyddiol. Er enghraifft, maent yn nodi geirfa benodol i gyd-fynd â phob ardal chwarae a themâu i sicrhau bod sgiliau cyfathrebu plant yn datblygu'n systematig. Maent yn dathlu ac yn dysgu am eu treftadaeth eu hunain a threftadaeth diwylliannau eraill mewn modd ystyrlon. Er enghraifft, gwrando ar storiâu am eraill yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn trafod gwisg Gymreig, ac yn canu caneuon traddodiadol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth sicr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Er enghraifft, maent yn deall pwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac maent yn hybu plant mwy abl yn dda pan fyddant wrth eu gwaith trwy ddefnyddio cwestiynau heriol. Yn gyffredinol, maent yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi'u dewis gan y plant a rhai sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr, sy'n bodloni anghenion plant unigol yn effeithiol.

Fodd bynnag, ar adegau, mae'r cyflwyniadau i waith grŵp ffocws yn rhy faith a phryd hynny, nid yw'r plant yn cael digon o gyfle i ddweud eu barn a gwneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda iawn. Dilynant drefn gyson wedi ei selio'n gadarn ar barch ac adnabod y plant. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol iawn ymhob agwedd o'u gwaith dyddiol.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith eithriadol o dda, gan rannu geirfa goeth gyda'r plant trwy eu llefaredd, eu dewis o straeon a'u defnydd ar ganeuon a rhigymau amrywiol. Maent yn datblygu eu sgiliau holi'n briodol i ategu dysgu plant. Mae'r cynigiant amgylchedd tu fewn yn ysgogol a gwna'r ymarferwyr ddefnydd addas o'u hardal awyr agored a'r gymuned leol. O ganlyniad, mae plant yn cymryd rhan yn dda ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sustem briodol i asesu ac olrhain cynnydd plant ar draws pob maes dysgu. Maent yn dechrau defnyddio hyn yn effeithiol i gynllunio camau dysgu nesaf plant. Mae ymarferwyr yn adrodd i rieni am gynnydd eu plant yn rheolaidd ac yn trosglwyddo cofnod o waith a chynnydd y plant pan fyddant yn gadael y lleoliad. Mae gwahoddiad agored i rieni drefnu i drafod cynnydd eu plant unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau da gan y lleoliad i gefnogi iechyd a lles plant, a'u hannog i fod yn fwy annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ofalu amdanynt eu hunain wrth wisgo'u cotiau cyn mynd allan ac wrth olchi eu dwylo cyn bwyta. Rhoddant ffrwythau a dŵr iddynt adeg byrbryd ond prin yw'r cyfleoedd i'r plant ddewis pa fwydydd a pha ddiodydd y buasent hwy yn eu hoffi. Mae'r plant yn mwynhau amser rheolaidd yn yr awyr agored yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf ond nid ydynt yn treulio cyfnodau rheolaidd allan yn nhymor y gaeaf.

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i'r plant, sy'n meithrin eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn datblygu sgiliau cymdeithasol cadarn yn ddyddiol wrth ymateb i gyfarwyddiadau, fel eistedd wrth fwrdd i fwyta a dweud diolch am eu bwyd. Maent yn dechrau dysgu am ddiwylliannau eraill yn effeithiol pan fyddant yn gwrando ar storiâu wedi eu lleoli mewn gwledydd eraill a pan fyddant yn chwarae gyda doliau o dras amrywiol.

Mae'r ymarferwyr yn fodelau da iawn wrth ddangos parch ac anwyldeb tuag at y plant i hybu eu hunan barch a'u hunan hyder. Maent yn hybu gwerthoedd sylfaenol fel tegwch, parch ac ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir yn dda. Er enghraifft, wrth helpu plant i fod yn deg wrth gymryd eu tro ar y beiciau tu allan. Mae trefniadau addas yn eu lle i helpu plant i ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu, fel gwastraff bwyd amser byrbryd.

Mae sustemau addas yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion addysgol ychwanegol ac mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol pan fo'r angen.

Mae ystod addas o bolisïau ar waith gan y lleoliad i ddiogelu plant a hybu eu lles. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r amgylchedd tu fewn y lleoliad yn ddiogel a chaiff ei gynnal yn dda. Mae'n lliwgar a chroesawgar ac mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda iawn. Maent yn paratoi arddangosfeydd diddorol sy'n dathlu gwaith plant ac yn cefnogi eu themâu penodol fel yr Hydref, rhew ac eira.

Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau addas i'r plant eu defnyddio, sy'n drefnus ac o ansawdd priodol. Yn ddiweddar, maent wedi adnewyddu adnoddau mewn rhai meysydd, fel yn y gornel technoleg a'r ardal tu allan. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu'r ardal tu allan ddiogel yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn ei defnyddio'n rheolaidd. Mae ganddynt amrediad o adnoddau priodol i'r plant eu defnyddio yno ac mae digon o le i blant ddatblygu eu sgiliau corfforol. Er enghraifft, mae ardal wedi'i datblygu'n dda ar gyfer archwilio adar drwy baratoi amrywiaeth o fwydydd i'w denu.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r amgylchedd lleol yn addas i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn cymryd mantais addas o'u lleoliad gwledig i fynd allan i sylwi ar y newidiadau tymhorol yn y gwrychoedd ac ar y coed.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae'r ymarferwyr, y person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn dîm ymroddgar iawn, gan rannu ymdeimlad cryf o bwrpas a chydweithio effeithiol.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd hapus a phwrpasol lle mae’r plant yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cyfri. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain, sy’n arwain at safon dda o ofal ac addysg yn y lleoliad.

Mae’r person cofrestredig a’r pwyllgor rheoli yn cynnig cymorth gwerthfawr, sy’n cyfrannu’n effeithiol iawn at redeg y lleoliad. Mae’r pwyllgor rheoli’n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion pwysig fel blaenoriaethau cynllun datblygu’r lleoliad, pa adnoddau i’w prynu gan wneud yn fawr o adnoddau’r gymuned leol.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn defnyddio’r rhain yn dda i nodi anghenion cymorth, fel darparu amser i gyd-drafod a chasglu arian sylweddol i brynu adnoddau. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar brofiadau dysgu o ansawdd da.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn sicrhau bod ffocws digon cryf ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd da i ddysgu am fwyta’n iach.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae gan ymarferwyr ymrwymiad cadarnhaol i wella’n barhaus. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yn eu harfer yn llwyddiannus, ac yn gweithredu ar y rhain yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o broses hunan arfarnu diweddar i’w helpu i nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu. Maent wedi defnyddio’r wybodaeth hon yn llwyddiannus iawn i greu cynllun gwella cryno sy’n cynnwys blaenoriaethau clir a chyfleoedd gwerthfawr i arfarnu cynnydd. Mae arweinwyr yn gwneud cynnydd da iawn tuag at gyflawni’r targedau, fel gwella sgiliau technolegol plant a gwell defnydd o’r ardal tu allan.

Maent yn blaenoriaethu gwariant cyllid yn dda. Er enghraifft, prynodd arweinwyr adnoddau newydd i hybu sgiliau technolegol plant ac i wella sgiliau corfforol fel rhan o’r cynllun i wella’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae plant yn mwynhau defnyddio’r ardal tu allan, ac yn datblygu eu sgiliau technolegol yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhannu eu dogfen hunan arfarnu a’u cynllun gwella yn briodol gyda’r pwyllgor rheoli, gan sicrhau eu cefnogaeth wrth weithio tuag at flaenoriaethau penodol.

Mae arweinwyr yn gweithio’n dda iawn gydag asiantaethau eraill fel athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin. Maent yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i weithredu ar argymhellion. Er enghraifft, wrth weithredu ar gyngor athro ymgynghorol yr awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn darparu gweithgareddau sy’n bodloni anghenion plant ar wahanol gamau datblygu. Mae’r arweinwyr wedi gweithredu’n gyflym  ar argymhellion eu harolygiad diweddar gan AGGCC.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad wedi datblygu ystod gadarn o bartneriaethau sy’n cyfrannu’n effeithiol at gyflawniadau a lles plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud llawer o ymdrechion defnyddiol i rannu gwybodaeth â rhieni. Maent yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am y themâu a ddilynir gan y plant. Maent yn cynnig gwahoddiad drws agored i rieni er mwyn iddynt dderbyn adborth anffurfiol am gynnydd eu plant. Maent hefyd yn adrodd yn ffurfiol i rieni ar gynnydd eu plant ar ddiwedd pob blwyddyn.

Mae gan y lleoliad berthynas dda iawn gyda’r ysgol gynradd leol. Mae plant yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac yn nhymor yr haf i’w helpu i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn addas i gefnogi dysgu plant. Maent yn gwahodd ymwelwyr i’r lleoliad yn rheolaidd i gyflwyno thema newydd. Er enghraifft, aethant allan i hel dail a ffrwythau’r hydref ac yn ddiweddar, fe ddaeth y postmon i’w helpu i ddeall postio a dosbarthu llythyron.

Mae’r bartneriaeth gre iawn gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwelliant parhaus y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr holl ymarferwyr brofiad eang dros flynyddoedd lawer o weithio gyda phlant ifanc. Maent yn rhedeg y lleoliad yn effeithiol. Gwnânt ddefnydd da o’u harbenigedd unigol i wella profiadau dysgu plant, fel gweithredu i-Pad a rheoli cryno ddisgiau i wella sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r plant.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant fel eu bod yn gyfredol ac yn datblygu eu sgiliau personol. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar ac asesu wedi gwella’u dealltwriaeth o’r broses ac wedi arwain at gofnodi rheolaidd o gynnydd plant. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr wedi cael cyfleoedd eto i ddysgu oddi wrth leoliadau eraill na rhannu arfer dda.

Mae’r pwyllgor rheoli’n sicrhau ei fod yn adolygu’r gyllideb yn fanwl. Mae’n blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad ac mae’n defnyddio cyllid yn effeithlon iawn i sicrhau bod y grŵp yn parhau’n gynaliadwy ac i gefnogi dysgu plant. O ystyried y datblygiadau cadarnhaol yn yr addysgu a’r dysgu, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol blant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |